Synnwyr Bwyd Cymru
Food Sense Wales

Cyhoeddwyd yn
**2022**

# Adroddiad Effaith

Mai 2021 - Mai 2022

GIG Cymru NHS Wales | Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro / Cardiff and Vale University Health Board

GIG Cymru NHS Wales | Iechyd Cyhoeddus Cymru / Public Health Wales

Cardiff & Vale Health Charity / Elusen Iechyd Caerdydd a'r Fro

# Cynnwys


3 Rhagair

4 Gwybodaeth am Synnwyr Bwyd Cymru

5 Datblygu Mudiad Bwyd Da

7 Pys Plîs

9 Lleoedd Bwyd Cynaliadwy

15 Bwyd Caerdydd

17 Dewch at Eich Gilydd Bwyd am Oes

20 Nerth Llysiau

22 Ymgyrch Hawl Plant i Fwyd

24 Bwyd a Hwyl

25 Eiriolaeth Bwyd Da

26 Cynghrair Polisi Bwyd Cymru

28 Pwysau Iach: Cymru Iach

28 Cychwyn Iach

29 Clymblaid Gwrth-dlodi Cymru

30 Aelodaeth Byrddau a Grwpiau

31 Beth nesaf? Camu 'mlaen i 2022 / 2023






Synnwyr Bwyd Cymru Food Sense Wales

# Rhagair

**Ni fu ein cenhadaeth i gyd-greu system fwyd sydd o les i bobl ac i'r blaned fyth yn fwy perthnasol na heriol yn wyneb y cefndir presennol o ddigwyddiadau byd-eang. Ond tra bo grymoedd y tu hwnt i'n rheolaeth yn parhau i herio a datgelu gwendidau yn ein system bwyd a ffermio, mae'r mudiad bwyd da yng Nghymru wedi parhau i adeiladu momentwm ac mae'n canfod ffyrdd arloesol o fynd i'r afael â'r heriau hynny y gallwn eu rheoli.**

Bellach, mae gan saith ardal awdurdod lleol yng Nghymru Bartneriaeth Bwyd Cynaliadwy, gyda phob un yn meithrin gweledigaeth gyfunol ar gyfer Bwyd Da yn eu hardal. Mae Bwyd Caerdydd wedi'i gydnabod fel un o ddim ond llond llaw o Leoedd Bwyd Cynaliadwy â statws Arian ledled y DU a chadarnhawyd hefyd y bydd Bwyd y Fro yn cael statws Efydd ym mis Mehefin 2022. Rydym wedi gweld 13 o hyrwyddwyr bwyd da yn cael eu cefnogi a'u datblygu drwy raglen Fy Nghymuned Fwyd Dewch at eich Gilydd Bwyd am Oes a chyfanswm o 90 o grantiau'n cael eu dosbarthu i brosiectau bwyd cymunedol ledled Cymru. Buom hefyd yn gweithio gyda 22 o hyrwyddwyr llysiau a'n haddunedwyr Pys Plîs i gefnogi ymdrech Cymru i gynyddu faint o lysiau sy'n cael eu bwyta - sydd wedi gweld cyfanswm o 636 miliwn o ddognau o lysiau'n cael eu bwyta yn y DU ers lansio Pys Plîs. Eleni, lansiwyd menter ysgolion 'Bwytewch y Llysiau i'w Llethu' Nerth Llysiau gyda chyllid Llywodraeth Cymru, gan sicrhau bod pob plentyn o oedran ysgol gynradd yng Nghymru wedi buddio o'r ymgyrch.

A gwnaed llawer o gynnydd yng nghyd-destun Polisi hefyd. Drwy ein haelodaeth o'r Gynghrair gwrthdlodi, ein harweinyddiaeth ar Gynghrair Polisi Bwyd Cymru a'n haelodaeth o'r Grŵp Cynghori Bwyd a Hwyl, mae Synnwyr Bwyd Cymru wedi cyfrannu at ymdrech ar y cyd i sicrhau ymrwymiadau allweddol yn y Rhaglen Lywodraethu a'r Cytundeb Cydweithredu fel Prydau Ysgol am Ddim mewn Ysgolion Cynradd, y Strategaeth Bwyd Cymunedol a'r gwaith parhaus o ehangu Bwyd a Hwyl. Gyda'i gilydd, mae'r ymrwymiadau hyn yn darparu sylfaen gref ar gyfer creu system fwyd fwy cadarn i Gymru. Fodd bynnag, byddwn yn parhau i eirioli dros yr angen am weledigaeth a chynllun cyffredinol ar gyfer ein system fwyd yng Nghymru - y mae'r angen amdanynt yn fwy dybryd fyth yn wyneb yr argyfwng costau byw a'r argyfwng iechyd cyhoeddus sy'n dwysáu, y bygythiadau cynyddol o brinder bwyd oherwydd digwyddiadau byd-eang a'r angen parhaus i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd a natur.

Rydym hefyd wrth ein boddau bod Dr. Angelina Sanderson Bellamy, Diane McCrea, Dr. Amber Wheeler a'r Athro Simon Wright wedi cytuno i fod yn aelodau o Grŵp Cynghori Synnwyr Bwyd Cymru ac rydym yn ddiolchgar iddynt am eu hamser a'u harbenigedd - yn enwedig wrth i ni symud tuag at gam nesaf ein gwaith.

Gan fyfyrio ar effaith y llynedd a'r gwaith a wnaed dros y flwyddyn ddiwethaf, mae'n galonogol nodi ein bod wedi cyflawni'r hyn yr oeddem yn anelu at ei wneud. Wrth symud ymlaen, bydd angen i ni fod yn fwy uchelgeisiol byth os ydym am oresgyn yr heriau mawr a wynebwn.

**Katie Palmer, Rheolwr Rhaglen, Synnwyr Bwyd Cymru**



Tîm Synnwyr Bwyd Cymru

# Gwybodaeth am Synnwyr Bwyd Cymru:

**Cyd-greu system fwyd i Gymru sydd o les i bobl ac i'r blaned.**

Mae Synnwyr Bwyd Cymru yn gweithio gyda chymunedau, sefydliadau, llunwyr polisi a'r Llywodraeth ar draws Cymru i greu system bwyd a ffermio sydd o les i bobl ac i'r blaned. Rydym am ddylanwadu ac effeithio ar sut mae bwyd yn cael ei gynhyrchu a'i fwyta yng Nghymru, er mwyn sicrhau bod bwyd, ffermio a physgodfeydd cynaliadwy wrth wraidd system fwyd gyfiawn, gysylltiedig a llewyrchus.

I ddarllen mwy am Synnwyr Bwyd Cymru gan gynnwys manylion ynglŷn â'r tîm, ein gwerthoedd a'n cenhadaeth, cliciwch yma os gwelwch yn dda.

Mae Synnwyr Bwyd Cymru yn gronfa o fewn Elusen Iechyd Caerdydd a'r Fro ac fe'i cynhelir gan dîm Iechyd Cyhoeddus Caerdydd a'r Fro.





Synnwyr Bwyd Cymru Food Sense Wales

# Datblygu Mudiad Bwyd da

## Rhaglenni rydym yn eu cyflwyno a'u cefnogi

Mae Synnwyr Bwyd Cymru yn gweithredu nifer o raglenni'n ymwneud â bwyd wrth i ni ymdrechu i adeiladu Mudiad Bwyd Da ledled Cymru.

Mae'r prosiectau hyn yn helpu i gynyddu ymwybyddiaeth y cyhoedd o faterion bwyd ac yn annog pobl i gymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n gysylltiedig â bwyd gan greu cenedl o ddinasyddion bwyd gweithredol.

Dyma wybdaeth bellach am rai o'r rhaglenni rydym yn eu cyflwyno neu'n eu cefnogi yng Nghymru ar hyn o bryd.



# Datblygu Mudiad Bwyd Da

Cipolwg o'r rhaglenni rydym yn eu darparu






Synnwyr Bwyd Cymru Food Sense Wales

# Pys Plîs

Partneriaeth ar draws DU dan arweiniad y Food Foundation ac wedi'i hariannu trwy Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol.

Mae Pys Plîs yn fenter ar draws y DU sydd â chenhadaeth glir iawn: ei gwneud hi'n haws i bawb yn y DU fwyta mwy o lysiau. Synnwyr Bwyd Cymru sy'n arwain ar waith Pys Plîs yng Nghymru ac yn dod â ffermwyr, cyflenwyr, manwerthwyr, cadwyni bwytai, arlwywyr, proseswyr ac adrannau'r llywodraeth ynghyd gyda'r nod cyffredin o'i gwneud hi'n haws i bawb fwyta llysiau. Partneriaid eraill y prosiect ar draws y DU sy'n ymwneud â'r fenter hon yw The Food Foundation, Nourish Scotland, Food NI a Nourish NI.

Nod y rhaglen arloesol hon sy'n canolbwyntio'n benodol ar lysiau, yw sicrhau ymrwymiadau gan ddiwydiant a'r llywodraeth i wella argaeledd, derbynioldeb (gan gynnwys cyfleustra), fforddiadwyedd ac ansawdd y cynnig llysiau mewn siopau, ysgolion, bwytai a thu hwnt, ac yn ei thro, ysgogi mwy o gymeriant o lysiau ymhlith cyhoedd y DU, yn enwedig plant a'r rhai ar incwm isel.

Ers i'r prosiect lansio bedair blynedd yn ôl, mae Pys Plîs wedi helpu gweini neu werthu 162 miliwn o ddognau ychwanegol cronnus o lysiau. Mae dros 100 o sefydliadau hefyd eisoes wedi gwneud adduned i chwarae eu rhan i helpu pawb ym Mhrydain i fwyta dogn ychwanegol o lysiau bob dydd. Gelwir yr addunedau hyn yn Addunedau Llysiau. Yng Nghymru, rydym ar hyn o bryd yn rheoli 8 o addunedwyr cenedlaethol, 46 o addunedau lleol gan 26 addunedwr trwy Fwyd Caerdydd a'r 25 o addunedwyr Dinas Llysiau mewn partneriaeth â Sustain/Lleoedd Bwyd Cynaliadwy. Un enghraifft yw Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro sy'n parhau i arloesi gyda'i safonau manwerthu a bwytai iach a'i fwyty blaenllaw Y Gegin yn ogystal â stondin llysiau yn yr ysbyty.

Mae Pys Plîs hefyd wedi recriwtio 22 o bobl o bob rhan o Gymru i fod yn Hyrwyddwyr Llysiau, gan weithio fel asiantau newid unigol yn eu cymunedau lleol ac i helpu i yrru'r newidiadau enfawr sydd eu hangen yn ein hymgais i gael pawb i fwyta mwy o lysiau.

Ac mewn ymgais i gynyddu cynhyrchiant lleol, fe ddyfarnodd Synnwyr Bwyd Cymru ynghyd â'n partneriaid Ffermydd a Gerddi Cymdeithasol, bum grant Pys Plîs rhwng £2500 a £5000 yn ddiweddar er mwyn cynorthwyo busnesau garddwriaethol bwytadwy llai sy'n gweithredu yng Nghymru (gweler yr astudiaeth achos isod am wybodaeth bellach).



# Pys Plîs

**Dyma rai o uchafbwyntiau diweddar y prosiect:**

- Cyhoeddodd Pys Plîs ei Adroddiad Ffeithiau am Lysiau 2021 ym mis Mehefin 2021. Mae hwn yn adroddiad pwysig a oedd yn dangos bod diffyg llysiau yn ein deiet yn gysylltiedig â 18,000 o farwolaethau cynamserol bob blwyddyn yn y DU. Darllenwch yr adroddiad llawn yma.

- Yn ystod yr un mis, trefnodd Synnwyr Bwyd Cymru 'Ffres! Gŵyl Lysiau Gyntaf Cymru' i ddathlu tyfu a bwyta llysiau, gweithredu ar lawr gwlad a mwynhau bob dim sy'n ymwneud â llysiau yng Nghymru. Cydlynwyd yr ŵyl gan Synnwyr Bwyd Cymru ac amlygodd y gwaith anhygoel sy'n digwydd ledled gerddi, ffermydd, cymunedau, sefydliadau a busnesau Cymru. Tynnodd brosiectau a phartneriaid o bob cwr o Gymru ynghyd hefyd – o brosiectau tyfu cymunedol i fusnesau garddwriaeth fwytadwy; o ysgrifenwyr bwyd i berchnogion bwytai; o ddylanwadwyr y cyfryngau cymdeithasol i gyfanwerthwyr – gan roi cyfle iddynt ddangos y gwaith gwych sy'n cael ei wneud i hyrwyddo tyfu a bwyta llysiau. Trefnodd Synnwyr Bwyd Cymru Gynhadledd Pys Plîs Cymru fel rhan o'r ŵyl Ffres! a oedd yn cynnwys dau ddigwyddiad – roedd y cyntaf yn canolbwyntio ar bolisi a buddsoddi mewn garddwriaeth, a'r ail yn archwilio'r amgylchedd bwyd. Darllenwch fwy yma.

- Yn ystod haf 2021, gwnaeth Cymru ei marc yn ail Seremoni Wobrwyo flynyddol Pys Plîs. Roedd gan yr addunedwyr Pys Plîs o Gymru bum enwebiad i gyd gan gipio'r wobr mewn dau o'r saith categori - gyda Chaerdydd yn ennill y Wobr Dinas Llysiau a Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro yn ennill y wobr Cynnydd Llysiau.

- Yn ystod mis Medi 2021, cyhoeddodd Pys Plîs ei adroddiad 'Bwydo Ein Dyfodol' ar fwyd ysgol. Mae plant ysgol yn ffocws penodol i'r fenter Pys Plîs o gofio'r lefelau isel o lysiau sy'n cael eu bwyta yn y grŵp oedran hwn, gyda bwyd ysgol yn darparu cyfle gwirioneddol i gynorthwyo plant i fwyta mwy o fwyd maethlon a llysiau. Mae'r adroddiad hwn yn ystyried system bwyd ysgol y DU mewn modd gonest, gan nodi enghreifftiau o arferion da o bob cwr o'r pedair gwlad, nodi cyfleoedd ar gyfer newid cadarnhaol, a gwneud argymhellion ar gyfer polisi a'r rheini sy'n gwneud penderfyniadau. Gallwch ddarllen yr adroddiad llawn yma. Ategwyd yr adroddiad gan adroddiad Cyflwr y Genedl sy'n darparu mwy o fanylion am y ddarpariaeth bwyd ysgol yng Nghymru. Darllenwch yr Adroddiad Cyflwr y Genedl Cymru yma.

- Cyhoeddodd Pys Plîs ei Adroddiad Cynnydd blynyddol ym mis Rhagfyr 2021, gan ddatgelu ei fod wedi darparu 636 miliwn o ddognau o lysiau ymysg 105 o fusnesau manwerthu, gweithgynhyrchu a lletygarwch. I ddarllen Adroddiad Cynnydd 2021 yn llawn, cliciwch yma.

- Ym mis Mawrth 2022, cyhoeddodd Synnwyr Bwyd Cymru ganfyddiadau astudiaeth beilot ddiweddar a ddangosodd y gallai buddsoddi mewn cynllun grantiau garddwriaeth ar raddfa fach gynyddu faint o lysiau a gynhyrchir yng Nghymru yn sylweddol. Gellir canfod rhagor o fanylion am y cynllun peilot hwn yn yr astudiaeth achos isod.

# Pys Plîs

- Ym mis Ebrill 2022, cynhaliodd Pys Plîs ei ddigwyddiad Llysiau Pobl cyntaf ym Manceinion y gwnaeth Hyrwyddwyr Llysiau o Gymru a Lloegr ei fynychu ac a ddarparodd gyfleoedd iddynt drafod eu cynlluniau ar gyfer eu Gweithgareddau Grant Bach (lle y gallant oll dderbyn £200 i gynnal gweithgareddau yn eu cymunedau lleol) mewn gweithdai bach; myfyriwyd ar eu profiadau hyd yn hyn o fod yn Hyrwyddwyr Llysiau; cawsant gyfle i rwydweithio a rhannu profiadau; a chyflwyno'r hyn y buont yn gweithio arno mewn perthynas â llysiau.

- Arddangosfa ffotograffiaeth – cymerodd yr Hyrwyddwyr Llysiau ran mewn ymchwil ar Bolisi Bwyd ym Mhrifysgol y Ddinas i ddeall eu profiadau o'r system fwyd drwy eu rhyngweithio â'u hamgylchedd bwyd lleol. Drwy ffotograffiaeth, dogfennodd yr Hyrwyddwyr Llysiau y rhwystrau a'r hwyluswyr i gael mynediad at lysiau yn eu cymunedau. Mae canlyniadau'r arddangosfa ffotograffiaeth i'w gweld yma.

- Mae Synnwyr Bwyd Cymru yn parhau i gefnogi gwaith Nerth Llysiau yng Nghymru, sef menter a lansiwyd yn 2018 o ganlyniad i waith Pys Plîs er mwyn ceisio cynyddu faint o lysiau y mae plant yn y DU yn eu bwyta. Gallwch ddarllen mwy am yr ymgyrch hon yn ddiweddarach yn yr adroddiad hwn.





Synnwyr Bwyd Cymru Food Sense Wales

## Astudiaeth achos

# Pys Plîs

**5** ymgeisydd llwyddiannus a ddewiswyd gan banel

**Gallai buddsoddi mewn cynllun grantiau garddwriaeth ar raddfa fach gynyddu'n sylweddol faint o lysiau a gynhyrchir yng Nghymru.**

Mae gwerthusiad o astudiaeth beilot ddiweddar a gynhaliwyd gan Synnwyr Bwyd Cymru wedi dangos y gall buddsoddiad ar raddfa fach gael effaith sylweddol a chadarnhaol ar fusnesau garddwriaeth, gyda gwerthiant llysiau yn cynyddu 74.5% ar gyfartaledd.

Gyda chyllid gan Pys Plîs ac wedi'i hwyluso gan Ffermydd a Gerddi Cymdeithasol, cynhaliodd Synnwyr Bwyd Cymru gynllun peilot grantiau bach i ariannu cyfarpar ar gyfer tyfwyr cynnyrch garddwriaethol ar raddfa fach yng Nghymru nad oeddent wedi cael llawer o gyfleoedd i fanteisio ar grantiau buddsoddi cyfalaf yn y gorffennol.

Darllenwch yr adroddiad yn llawn yma ac i glywed mwy am yr astudiaeth beilot, gwrandewch ar bodlediad diweddar Synnwyr Bwyd Cymru a gyflwynir gan Dr Amber Wheeler yma sy'n cynnwys lleisiau rhai o'r bobl hynny a dderbyniodd grantiau wrth iddyn nhw drafod canlyniadau.




Synnwyr Bwyd Cymru Food Sense Wales



# Lleoedd Bwyd Cynaliadwy

Rhaglen bartneriaeth ar draws y DU sy'n cael ei arwain gan Gymdeithas y Pridd, Food Matters a Sustain: y gynghrair dros fwyd a ffermio gwell, ac fe'i hariennir gan Esmée Fairbairn Foundation a Chronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol.

Lleoedd Bwyd Cynaliadwy (Dinasoedd Bwyd Cynaliadwy gynt) yw un o'r mudiadau cymdeithasol sy'n tyfu gyflymaf heddiw. Mae ei rwydwaith yn dwyn ynghyd bartneriaethau bwyd arloesol o drefi, dinasoedd, bwrdeistrefi, rhanbarthau a siroedd ar hyd a lled y DU sy'n symbylu arloesedd ac arfer gorau ar bob agwedd ar fwyd iach a chynaliadwy.

Synnwyr Bwyd Cymru yw partner cenedlaethol Llefydd Bwyd Cynaliadwy yng Nghymru ac mae gennym uchelgais i weld partneriaeth fwyd ym mhob awdurdod lleol yng Nghymru, gan greu rhwydwaith a fyddai'n sylfaen ar gyfer datblygu'r weledigaeth, yr isadeiledd a'r gweithredu sydd eu hangen i wneud system fwyd Cymru yn addas ar gyfer Cenedlaethau'r Dyfodol.
Mae Synnwyr Bwyd Cymru yn cefnogi'r saith aelod cyfredol yng Nghymru, sef Bwyd Caerdydd, Bwyd y Fro, Partneriaeth Bwyd Sir Fynwy, Bwyd RCT, Partneriaeth Bwyd Blaenau Gwent, Partneriaeth Bwyd Gogledd Powys a Bwyd Sir Gâr Fwyd yn Sir Gaerfyrddin. Darllenwch fwy am y partneriaethau yma.

Rydym hefyd yn cefnogi'r gwaith o ddatblygu mwy o Leoedd Bwyd Cynaliadwy yng Nghymru, gan gynnwys gweithio gyda Thorfaen wrth i'r sir barhau i ddatblygu ei phartneriaeth gan weithio tuag at ddod yn aelod llawn o'r rhwydwaith. Byddai Synnwyr Bwyd Cymru yn annog ardaloedd a chymunedau ar draws Cymru i ymuno gan helpu i arwain y ffordd o ran sefydlu a thyfu seilwaith sy'n seiliedig ar le, gan gyfrannu at ddatblygu 'mudiad bwyd da' a fydd o fudd i iechyd, economi, cynaliadwyedd a ffyniant cymdeithasol cymunedau ledled Cymru.



# Lleoedd Bwyd Cynaliadwy

**Dyma rai o gyflawniadau allweddol y rhaglen hyd yn hyn; y sbardun allweddol ar gyfer ei datblygiad ac amcanion Synnwyr Bwyd Cymru ar gyfer y rhaglen yng Nghymru:**

- Mae Synnwyr Bwyd Cymru yn parhau i gefnogi datblygiad a thwf parhaus y 7 o Leoedd Bwyd Cynaliadwy yng Nghymru. Ym mis Hydref 2021, cafodd Sir Fynwy, Blaenau Gwent a Rhondda Cynon Taf eu derbyn fel aelodau ac, yn fwyaf diweddar, ym mis Mawrth 2022, daeth Gogledd Powys a Sir Gaerfyrddin yn aelodau.

- Mae 4 o'r 7 lleoedd wedi derbyn grantiau cydlynwyr dros 2 flynedd gan Lleoedd Bwyd Cynaliadwy

- Mae Synnwyr Bwyd Cymru yn cefnogi datblygiad rhagor o bartneriaethau bwyd yng Nghymru drwy weithio gyda lleoedd, gan gynnwys Torfaen, i ddatblygu eu gweledigaeth, eu strategaeth a'u cynllun gweithredu

- Ym mis Mawrth 2022, darparodd Synnwyr Bwyd Cymru weithdy wyneb yn wyneb ar gyfer Cydlynwyr Lleoedd Bwyd Cynaliadwy yng Nghymru. Gan mai dyma oedd y tro cyntaf i'r grŵp ddod ynghyd, y ffocws oedd meithrin perthnasoedd a rhannu gwybodaeth. Mae Synnwyr Bwyd Cymru bellach yn datblygu'r grŵp hwn yn rhwydwaith cymorth i gymheiriaid ac mae Cydlynwyr Synnwyr Bwyd Cymru yn treialu grŵp Whatsapp fel ffordd o gyfathrebu ac ymgysylltu â'i gilydd.

- Ym mis Mehefin 2021, dathlodd Caerdydd y ffaith iddi dderbyn Gwobr Arian Lleoedd Bwyd Cynaliadwy, gan ddod y lle cyntaf yng Nghymru ac yn un o ddim ond chwe lle yn y DU i dderbyn yr anrhydedd clodwiw, gan gydnabod gwaith arloesol y ddinas o hyrwyddo bwyd iach a chynaliadwy.



Synnwyr Bwyd Cymru Food Sense Wales

# Lleoedd Bwyd Cynaliadwy Statws Arian ac Efydd

SUSTAINABLE FOOD places Cardiff SILVER

SUSTAINABLE FOOD places Vale of Glamorgan BRONZE

**Bwyd Caerdydd**

Partneriaeth dinas gyfan o unigolion a sefydliadau yw Bwyd Caerdydd. Mae'n gweithredu fel canolbwynt ar gyfer cysylltu'r bobl a'r prosiectau sy'n gweithio i hyrwyddo bwyd iach ledled y ddinas, sy'n amgylcheddol gynaliadwy a moesegol; mae'n gweithredu fel llais ar gyfer newid ehangach.

**Bwyd y Fro**

Mae Bwyd y Fro yn bartneriaeth o unigolion, grwpiau cymunedol, sefydliadau a busnesau ymroddedig, sy'n cydweithio i greu system fwyd yn y Fro, sy'n ffynnu, ac yn iach a chynaliadwy.

# Lleoedd Bwyd Cynaliadwy

## Aelodau Newydd

**Partneriaeth Fwyd Sir Fynwy**

Tyfodd a datblygodd Partneriaeth Fwyd Sir Fynwy o waith gweithredu cymunedol lleol ac mae'n barhad o'r mudiad bwyd da sydd eisoes wedi'i feithrin gan bartneriaethau a gweithgaredd bwyd blaenorol ledled y sir.

**Bwyd RCT**

Mae Bwyd RCT yn bartneriaeth fwyd newydd a gynhelir gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf. Ei gweledigaeth yw sicrhau bod gan bawb sy'n byw, yn gweithio neu'n ymweld â Rhondda Cynon Taf fynediad at fwyd iach, blasus a fforddiadwy sy'n dda i'r amgylchedd a'r economi leol.

**Partneriaeth Fwyd Blaenau Gwent**

Sefydlwyd Partneriaeth Fwyd Blaenau Gwent ym mis Mai 2021 gyda'r bwriad o lansio strategaeth uchelgeisiol i fynd i'r afael â'r heriau a'r cyfleoedd o fewn system fwyd Blaenau Gwent. Bydd y Bartneriaeth yn chwarae rôl ganolog mewn cydlynu camau gweithredu lleol ar faterion fel mynediad at fwyd, y defnydd o dir a datblygu 'Mudiad Bwyd Da'.

**Partneriaeth Fwyd Gogledd Powys**

Mae Partneriaeth Fwyd Gogledd Powys yng nghamau cynnar ei chydweithrediad â Cultivate, Cyngor Sir Powys, Campws y Drenewydd Grŵp Castell Nedd Port Talbot a Bwrdd Iechyd Dysgu Powys. Daeth y bartneriaeth yn aelod o Lleoedd Bwyd Cynaliadwy yng ngwanwyn 2022, ac mae eisoes wedi meithrin dull cryf, cydweithredol o weithio.

# Sustainable Food Places

## New members

**Bwyd Sir Gâr Food**

Drwy rymuso cymunedau drwy ddull cydgynhyrchiol, gweledigaeth Bwyd Sir Gâr Food yw galluogi adfywio cymdeithasol, diwylliannol, amgylcheddol ac economaidd. Mae'n anelu at weithio mewn ffordd sy'n ddiwylliannol sensitif, yn flaengar ac yn gynhwysol drwy addysg, cyfathrebu a mynediad i gyfleoedd, er mwyn hyrwyddo system fwyd leol sy'n ffynnu ac sy'n gadarn a maethlon er mwyn cefnogi adferiad natur, yn ogystal ag iechyd a llesiant. Cefnogir y bartneriaeth gan Gyngor Sir Gaerfyrddin, Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Gaerfyrddin, Adran Maetheg a Deieteg Hywel Dda, Iechyd Cyhoeddus Cymru, Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Gaerfyrddin a Rhwydwaith Bwyd Sir Gaerfyrddin.

Darllenwch fwy am Leoedd Bwyd Cynaliadwy Cymru yma.



# Bwyd Caerdydd

## Un o aelodau sefydlu rhwydwaith Lleoedd Bwyd Cynaliadwy sydd hefyd yn rhan o bortffolio rhaglenni Synnwyr Bwyd Cymru

Mae Bwyd Caerdydd yn credu bod y bwyd rydyn ni'n ei fwyta yn cael effaith aruthrol ar fywyd yng Nghaerdydd – nid yn unig ar iechyd pobl, ond ar gymunedau a busnesau, ffermwyr unigol, a'r amgylchedd hefyd.


Mae bwyd da yn creu cymunedau cryf, iach a chydnerth. Mae'n gweithredu fel canolbwynt ar gyfer cysylltu pobl a phrosiectau sy'n gweithio i hyrwyddo bwyd iach, cynaliadwy a moesegol; yn gweithredu fel llais dros newid ehangach yn ogystal â bod yn gatalydd ar gyfer newid y system fwyd leol yng Nghaerdydd.

Bellach, mae Bwyd Caerdydd yn cynnwys 203 o unigolion ar draws 95 o sefydliadau ac mae ganddo fwrdd strategaeth sy'n cynnwys ystod o aelodau, gan gynnwys Cyngor Caerdydd, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, Iechyd Cyhoeddus Cymru, Gweithredu yng Nghaerau a Threlái a llu o sefydliadau eraill. Drwy'r rhwydwaith hwn o bartneriaid ymroddedig, mae Caerdydd yn ysgogi newid ar lefel y ddinas ac yn gweithio i fynd i'r afael â rhai o broblemau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol mwyaf y dydd.

Ym mis Mehefin 2021, enillodd Bwyd Caerdydd statws Arian Lleoedd Bwyd Cynaliadwy (Sustainable Food Places). Dyma'r lle cyntaf yng Nghymru ac un o ddim ond chwe lle yn y DU i gyflawni'r gamp hon, sy'n cydnabod gwaith arloesol y ddinas wrth hyrwyddo bwyd iach a chynaliadwy.

Ym mis Gorffennaf 2021, cafodd gyflawniadau Bwyd Caerdydd eu cydnabod unwaith eto pan enillodd y wobr Dinas Llysiau yn seremoni wobrwyo blynyddol Pys Plîs. Fe ddyfarnwyd y wobr hon i Fwyd Caerdydd am y dulliau effeithiol ac integredig yn seiliedig ar le a ddefnyddir gan y ddinas er mwyn cynyddu nifer y llysiau sy'n cael eu bwyta ar lefel leol.

Ac yn fwyaf diweddar, lansiodd Bwyd Caerdydd ymgyrch yn gofyn i bobl o bob cefndir 'ymrwymo' a chymryd camau i gynorthwyo Caerdydd i ennill statws Aur Lleoedd Bwyd Cynaliadwy erbyn 2024.



# Bwyd Caerdydd

**Mae Bwyd Caerdydd yn parhau i esblygu mewn ymateb i 'fudiad bwyd da' y ddinas, sy'n prysur ehangu, ac mae ei effaith ledled y brifddinas yn amlwg bellach. Dyma rai o'i uchafbwyntiau niferus: :**

- **Mai 2021:** Rhoddwyd statws Arian Lleoedd Bwyd Cynaliadwy i Gaerdydd

- **Mehefin 2021:** Caerdydd yn ennill y Wobr Dinas Llysiau yn seremoni wobrwyo flynyddol Pys Plîs

- **Mawrth 2022:** lansio ymgyrch newydd sy'n gobeithio rhoi Caerdydd ar y trywydd iawn i ddod yn un o leoedd bwyd mwyaf cynaliadwy y DU, drwy ofyn i bobl o bob cefndir 'ymrwymo' a chymryd camau i helpu Caerdydd i ennill statws Aur Lleoedd Bwyd Cynaliadwy erbyn 2024.

- **Hydref 2021:** Cynhaliodd Bwyd Caerdydd ail Ŵyl yr Hydref a oedd yn cynnwys rhaglen o ddigwyddiadau bwyd da a gynhaliwyd ledled y ddinas, a oedd yn canolbwyntio ar fwyd maethlon, cynaliadwyedd a chysylltiadau. Cydlynodd y bartneriaeth waith celf gyhoeddus mawr, a wnaed gyda ffrwythau a llysiau a gasglwyd o wahanol randiroedd, gerddi cymunedol a thyfwyr lleol; a ddefnyddiwyd wedyn yn y digwyddiadau drwy gydol yr ŵyl gyda'r digwyddiad yn ymddangos ar ITV Wales. Dosbarthodd Bwyd Caerdydd grantiau bach o £150 i 13 o sefydliadau. Gyda'i gilydd, roedd 23 o ddigwyddiadau, a fynychwyd gan 1,195 o bobl a rannodd 464 o brydau. Daeth yr ŵyl i ben gyda Chynhadledd Fwyd i lansio'r Strategaeth Bwyd Da newydd ledled y ddinas ar gyfer 2021-2024 i ddod ag arweinwyr, busnesau, sefydliadau, grwpiau cymunedol a gweithredwyr ynghyd i lansio'r camau gweithredu i greu dyfodol gwell mewn perthynas â bwyd.

- Yn 2021/ 22, rhoddwyd grant o £150,000 hefyd i Bwyd Caerdydd gan Grant Tlodi Bwyd Llywodraeth Cymru – cynllun a gyflwynwyd i gynorthwyo awdurdodau lleol a sefydliadau i gydweithio i fynd i'r afael â thlodi bwyd a diffyg diogelwch bwyd. Mae'r cyllid hwn wedi cynorthwyo i ddatblygu, darparu ac ychwanegu capasiti at amrywiaeth o brosiectau deniadol sy'n seiliedig ar fwyd.

**Roedd y materion allweddol a gyflawnwyd yn cynnwys:**

1. Datblygu gwefan gwbl ddwyieithog newydd ac adfywio'r brand, gydag ymgyrch ddigidol yn y cyfryngau i'w cefnogi
2. Partneriaeth gyda Chyngor Caerdydd a deietegwyr iechyd cyhoeddus i gynnal tair Her Coginio'n Iach, a gyrhaeddodd 150 o aelwydydd.
3. Galluogi Cyngor Caerdydd i ymestyn cronfa ddewisol Gyda'n Gilydd Dros Gaerdydd i gefnogi 103 o aelwydydd sy'n dioddef caledi ariannol.
4. Meithrin capasiti ledled Rhwydwaith Manwerthu Bwyd Cymunedol Caerdydd sydd bellach yn cynnwys 28 o aelodau unigol sy'n cynrychioli 23 o grwpiau/sefydliadau. Gweithiodd y rhwydwaith gydag Ysgol Fusnes Caerdydd i gyd-ddylunio a chyhoeddi pamffled gwybodaeth. Cynhaliodd y Rhwydwaith ymweliad hefyd ar gyfer y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol, Jane Hutt
5. Datblygu 'O'r Pridd i'r Plât' sy'n anelu at gynyddu faint o gynnyrch a dyfir yn rhanbarth awdurdod lleol Caerdydd ac a gyflenwir i brosiectau manwerthu bwyd cymunedol (e.e. cydweithfeydd bwyd, oergelloedd cymunedol, pantrïau, Clybiau Food On Our Doorstep).

Mae Cyngor Caerdydd, un o aelodau bwrdd strategaeth Bwyd Caerdydd, hefyd wedi cyhoeddi ei strategaeth hinsawdd, Caerdydd Un Blaned, bellach, sy'n cynnwys camau gweithredu sylweddol yn ymwneud â bwyd ac mae'n cyfeirio at ei waith partneriaeth gyda Bwyd Caerdydd. Mae Cyngor Caerdydd hefyd wedi penodi Swyddog Bwyd i ddarparu ei strategaeth fwyd ei hunan, sy'n cefnogi amcanion y bartneriaeth gyffredinol ymhellach.

Gallwch ddarllen mwy am Bwyd Caerdydd a'i waith drwy ymweld â'r wefan.

# Dewch at Eich Gilydd Bwyd am Oes

## Dan arweiniad Cymdeithas y Pridd ac wedi'i ariannu drwy Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol

Mae Dewch at Eich Gilydd Bwyd am Oes yn rhaglen o weithgareddau cymunedol rheolaidd sy'n cysylltu pobl o bob oed a chefndir drwy dyfu, coginio a rhannu bwyd da. Mae'n rhaglen Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol dros 4 blynedd a ddechreuwyd ym mis Mehefin 2019 ac sy'n cael ei harwain gan elusen Bwyd am Oes Cymdeithas y Pridd a'i darparu yng Nghymru drwy Synnwyr Bwyd Cymru.

Mae Dewch at Eich Gilydd Bwyd am Oes yn cefnogi trefnwyr cymunedol i gynnal gweithgareddau bwyd da, gan ddarparu adnoddau, hyfforddiant ar-lein a grantiau bach, ac yn eu cysylltu â'i gilydd er mwyn rhannu syniadau drwy ddigwyddiadau'r rhwydwaith. Ers ei gyflwyno, mae Dewch at eich Gilydd Bwyd am Oes yng Nghymru wedi ymroi i ymgysylltu â chymunedau amrywiol a'r rheini sydd dan anfantais, gyda 38.7% o'r grwpiau sy'n cymryd rhan yn y rhaglen yng Nghymru wedi'u lleoli yn y rhannau o'r wlad lle ceir yr amddifadedd mwyaf o 10%, 20% a 30%.

Mae Dewch at Eich Gilydd Bwyd am Oes hefyd yn rhedeg Fy Nghymuned Fwyd – rhwydwaith ar gyfer hyrwyddwyr bwyd da i ddysgu, cysylltu a gweithredu. Mae'n rhaglen o weithgareddau i ddod â phobl sy'n hyrwyddo bwyd da ynghyd – bwyd sy'n dda i'r hinsawdd, i natur ac i iechyd. Dechreuodd y garfan gyntaf y cwrs ym mis Medi 2021 ac mae nifer wedi derbyn grantiau i ddatblygu eu prosiectau yn eu cymunedau. Rydym yn recriwtio ar hyn o bryd ar gyfer y garfan nesaf a fydd yn dechrau ym mis Medi 2022.









Synnwyr Bwyd Cymru
Food Sense Wales

# Dewch at Eich Gilydd Bwyd am Oes

**Dyma rai o gyflawniadau allweddol Dewch at Eich Gilydd Bwyd am Oes yn ystod y 12 mis diwethaf:**

- Mae Dewch at Eich Gilydd Bwyd am Oes wedi comisiynu partneriaid lleol i gynorthwyo i ddarparu gweithgareddau a phrofi dulliau arloesol o rannu'r arferion gorau a meithrin capasiti trefnwyr cymunedol eraill. Mae'r rhain yn cynnwys Cultivate sydd wedi'i leoli yn y Drenewydd – sefydliad sydd hefyd yn gyfrifol am Bartneriaeth Fwyd Gogledd Powys, un o aelodau diweddaraf Lleoedd Bwyd Cymunedol.

- Hyd yn hyn, mae Dewch at Eich Gilydd Bwyd am Oes wedi gweithio'n bennaf ar draws 3 ardal Byrddau Iechyd – Byrddau Iechyd Caerdydd a'r Fro, Aneurin Bevan a Betsi Cadwaladr. Yn 2022, cafodd y cyllid ei sicrhau i weithio gyda phedwerydd bwrdd – Bwrdd Iechyd Addysgu Powys. Cefnogwyd y rhaglen gan ddeietegwyr ym mhob un o'r ardaloedd hyn, gan gynorthwyo i ddarparu gweithgareddau priodol a chynnwys addas i'r cymunedau y maent yn gweithredu ynddynt.

- Mae rôl Rheolwr Bwyd Cymunedol Cymru wedi galluogi perthnasoedd cryfach i gael eu meithrin ar draws rhaglenni gwahanol, yn benodol Dewch at Eich Gilydd Bwyd am Oes a Lleoedd Bwyd Cymunedol. Er enghraifft, mae 3 o'r 7 Cydlynydd Lleoedd Bwyd Cymunedol yng Nghymru yn aelodau o garfan Fy Nghymuned Fwyd Dewch at Eich Gilydd Bwyd am Oes. Gwobrwywyd Grant Bach Dewch at Eich Gilydd Bwyd am Oes i brosiect ym mhob un o'r Lleoedd Bwyd Cynaliadwy yng Nghymru.

- Mae'r Mis Plannu a Rhannu yn digwydd rhwng mis Mai a mis Mehefin pob blwyddyn, sy'n annog pobl i ddod ynghyd, i ailgysylltu gydag o ble y daw eu bwyd ac i gefnogi'r amgylchedd. Yng Nghymru, cofrestrwyd 69 o weithgareddau Plannu a Rhannu ar draws ymgyrchoedd 2021 a 2022 gyda 20 o grantiau'n cael eu rhoi i grwpiau yng Nghymru yn ystod ymgyrch 2022 Plannu a Rhannu.

- Cafodd y Mis Coginio a Rhannu ei gynnal rhwng yr 16 Hydref ac 16 Tachwedd 2021 gydag 11 o grantiau coginio a rhannu'n cael eu cyflwyno i grwpiau yng Nghymru.

- Fel rhan o'r prosiect Fy Nghymuned Fwyd, cyflwynwyd 9 o grantiau Prosiectau Gweithredu Cymunedol gwerth £1,000 yr un i aelodau o garfan 2021 yng Nghymru, gan eu galluogi i roi'r sgiliau a'r syniadau y maent wedi'u datblygu yn ystod y rhaglen i fynd i'r afael â materion bwyd da yn eu cymunedau ar waith.

- Ym mis Mawrth 2022, darparodd Synnwyr Bwyd Cymru sesiwn graidd o'r rhaglen Fy Nghymuned Fwyd i garfan Cymru. Cafodd y sesiwn hon a oedd yn canolbwyntio ar bolisi ei chyflwyno yn bersonol gan dîm Synnwyr Bwyd Cymru. Oherwydd y cysylltiad â rhaglenni eraill, gwahoddwyd Cydlynwyr Synnwyr Bwyd Cymru a Hyrwyddwyr Llysiau hefyd i gael cyfle ehangach i rwydweithio. Darllenwch fwy am y digwyddiadau yma.

- Maes ffocws allweddol ar gyfer Dewch at Eich Gilydd Bwyd am Oes ym Mlwyddyn 3 y rhaglen yw cyd-ddylunio ail gynllun peilot Fy Nghymuned Fwyd. Bydd gwerthusiad ac adborth o'r rhaglen beilot gyntaf yn llywio'r gwaith ym mlwyddyn 2. Cytunwyd y dylid cynyddu'r sesiynau lle roedd pobl yn cwrdd wyneb yn wyneb yn ogystal â sefydlu llwyfan newydd ar-lein. Bydd carfan 2021/2022 hefyd yn gweithredu fel mentoriaid ar gyfer y garfan newydd gyda'r gwaith recriwtio yn cychwyn ym mis Mai 2022 a'r ddarpariaeth yn cychwyn ym mis Medi 2022. Yr amcan yw recriwtio 100 o bobl i'r ail garfan gyda Synnwyr Bwyd Cymru'n chwarae rôl allweddol mewn hyrwyddo'r cyfle drwy bartneriaid a rhanddeiliaid Cymreig.

- Ffocws allweddol arall dros y 12 mis nesaf i Dewch at Eich Gilydd Bwyd am Oes yw'r rhaglen etifeddiaeth. Bydd rhannu ac ymwreiddio'r hyn a ddysgir drwy adroddiadau thematig, astudiaethau achos a storïau gan bartneriaid yn rhan o'r broses hon.

Astudiaeth achos

# Dewch at Eich Gilydd Bwyd am Oes

## Prosiect Gardd Salad Caerdydd yn blodeuo diolch i gefnogaeth Dewch at Eich Gilydd Bwyd am Oes

Yn ystod haf 2021, cynigiodd Dewch at Eich Gilydd Bwyd am Oes gefnogaeth i Ardd Salad Caerdydd i agor  gweithdy symudol 6 metr gwych ac ysbrydoledig yn llawn salad byw. Yn ystod ei gyfnod ym Mharc Bute, Caeryddd, croesawyd dros  150 o gyfranogwyr i ddysgu mwy am blannu, tyfu, cynaeafu a choginio dail salad.

Comisiynwyd y Bottega Project gan Ardd Salad Caerdydd i greu'r cylch salad byw, sef strwythur symudol sy'n cynnwys sawl wal dyfu fodiwlaidd lle mae planhigion â gwreiddiau bas wedi'u plannu o'r llawr i'r nenfwd, yn cynnwys salad ac amrywiaeth o berlysiau a blodau bwytadwy eraill. Roedd y waliau byw yn rhyngweithiol, ac roedd modd eu newid gyda chyfranogwyr yn cael cyfle i gynaeafu planhigion yn ogystal â'u plannu.

Derbyniodd y prosiect hwn grant gwerth £10,000 gan Dewch at eich Gilydd Bwyd Am Oes fel rhan o'i waith i brofi dulliau arloesol a datblygu ymhellach ei fentrau presennol sy'n dod â phobl o wahanol genedlaethau a chefndiroedd ynghyd drwy gyfrwng bwyd.

Darllenwch fwy yma.



# Nerth Llysiau

Prif nod Nerth Llysiau yw cynyddu faint o lysiau sy'n cael eu bwyta gan blant ar draws y DU – menter a sefydlwyd yn 2018 ar ôl datblygu o waith Pys Plîs. Mae Synnwyr Bwyd Cymru yn gweithio'n agos gyda Nerth Llysiau i gefnogi ei weithgareddau yng Nghymru.

Mae 80% o'n plant yn y DU heb fod yn bwyta digon o lysiau, gyda thraean yn bwyta llai nag un dogn y dydd. Mae Nerth Llysiau yn gweithio mewn partneriaeth glòs â rhaglen Pys Plîs a'i nod yw defnyddio hysbysebu a marchnata i gynyddu'r galw gan ddefnyddwyr am lysiau a'r gwerth canfyddedig a roddant arnynt.

Ymgyrch gan Nerth Llysiau yw Bwytewch y Llysiau i'w Llethu. Mae ei ddull i ysbrydoli plant i fwyta mwy o lysiau yn cyfuno grym hysbysebu gyda rhaglen i ysgolion. Mae'n dwyn ynghyd gynghrair anferth sy'n cynnwys hysbysebu ar y teledu, enwogion, archfarchnadoedd, pen-cogyddion, ysgolion, cymunedau a theuluoedd.

**Mewn partneriaeth ag ITV, cafodd Bwytewch y Llysiau i'w Llethu 2022:**

- Ei gynnal rhwng mis Chwefror a mis Ebrill 2022
- Cafodd ei gefnogi gan ymgyrch hysbysebu gwerth £3.5 miliwn wedi'i harwain gan ITV, Sianel 4 a Sky
- Aeth y rhaglen i ysgolion allan i 3,845 o ysgolion cynradd ac arbennig yng Nghymru, diolch i gefnogaeth Llywodraeth Cymru
- Cymerodd dros 1 filiwn o blant ran drwy weithgareddau mewn ysgolion, digwyddiadau blasu a siartiau gwobrwyo a phecyn sticeri.
- Dywedodd 57% o rieni plant a gymerodd ran yn y rhaglen ysgolion fod eu plant wedi bwyta mwy o lysiau o ganlyniad i'r rhaglen, gyda 37% ohonynt yn dweud eu bod hwythau hefyd wedi bwyta mwy o lysiau o ganlyniad iddi.

**Mae ymgyrchoedd eraill Nerth Llysiau ledled y DU yn cynnwys:**

- **Stir Fry Frenzy** - fe wnaeth ymgyrch ar y cyfryngau cymdeithasol ym mis Chwefror 2022 gyrraedd dros 1 filiwn o bobl gyda chefnogaeth gan Ken Hom, Ching He Hueng, a nifer mwy o ben-cogyddion a dylanwadwyr bwyd.
- **Raw Veg** – dosbarthwyd canllaw defnyddiol i rieni a gofalwyr ynghylch cynnwys mwy o lysiau amrwd yn neiet eu plant drwy 1,000 o ysgolion cynradd ym mis Mai 2022.
- **Breakfast in Colour** – ymgyrch ar y cyfryngau cymdeithasol a lansiwyd ym mis Mehefin i ysbrydoli pobl i ychwanegu llysiau at eu brecwast.
- **Simply Veg** – Prosiect mawr newydd sy'n galw ar rieni ac arbenigwyr bwyd a choginio i gynorthwyo i'w gwneud mor hawdd â phosibl i rieni gynnwys mwy o lysiau ym mhrydau'r teulu. Caiff ei lansio ym mis Medi gydag ymgyrch bosteri genedlaethol.



Astudiaeth achos

# Nerth Llysiau

## Arian gan Lywodraeth Cymru'n sicrhau bod holl blant ysgolion Cymru'n gallu elwa o ymgyrch Bwytewch y Llysiau i'w Llethu

Dychwelodd yr ymgyrch gwobrwyedig 'Bwytewch y Llysiau i'w Llethu' i gael plant i fwyta mwy o lysiau, am y bedwaredd flwyddyn yn Chwefror 2022. Cefnogwyd yr ymgyrch gan Lywodraeth Cymru drwy ariannu rhaglen ddwyieithog i holl ysgolion cynradd ac arbennig Cymru, gan gyrraedd hyd at 275,000 o blant, allan o gyfanswm o 1m ar draws y DU.

Ar hyn o bryd nid yw lefelau bwyta llysiau yn y DU yn cyrraedd argymhellion y llywodraeth. Yn ôl yr Arolwg Diet a Maeth Cenedlaethol, mae bron i draean (29%) o blant cynradd yn bwyta llai nag un gyfran o lysiau'r dydd. Yn ôl data arolwg diweddar gan Veg Power, mae 49% o blant Cymru eisiau bwyta mwy o lysiau gyda 43% yn honni bod eu rhieni'n cael trafferth eu cael i fwyta mwy o lysiau.

Darllenwch fwy yma.






Synnwyr Bwyd Cymru Food Sense Wales





# Ymgyrch Hawl Plant i Fwyd

## Dan arweiniad Food Foundation

Mae'r ymgyrch Hawl Plant i Fwyd yn fenter ar draws y DU a sefydlwyd i sicrhau bod pob plentyn yn y DU yn gallu cyrchu a fforddio bwyd da. Cafodd ei siapio gan ganfyddiadau Ymholiad Dyfodol Bwyd Plant (y Children's Future Food Inquiry) dan arweiniad Llysgenhadon Bwyd Ifanc o bob rhan o'r DU, ac wedi'i gydlynu gan y Food Foundation. Mae'r ymgyrch yn galw ar Lywodraethau i fynd i'r afael ag ansicrwydd bwyd plant ac anghydraddoldebau mewn gordewdra plentyndod, ac mae'n cyflwyno ei weledigaeth yn y Siarter #HawliFwyd.

Yn 2021, cyhoeddodd yr Ymgyrch Hawl Plant i Fwyd Flwyddyn o Fwyd Plant, sef adolygiad cynnydd ar y polisi i fynd i'r afael â'r anghydraddoldebau o ran bwyd plant ledled pedwar gwlad y DU yn 2020-21. Cyfrannodd Katie Palmer, Rheolwr Rhaglenni Synnwyr Bwyd Cymru, at yr adroddiad drwy ddarparu sylwadau arbenigol ar y sefyllfa yng Nghymru.

Mae Synnwyr Bwyd Cymru yn parhau i gefnogi gwaith yr ymgyrch Hawl Plant i Fwyd yng nghyd-destun y DU yn ogystal â dylanwadu ar Lywodraeth Cymru a rhanddeiliaid allweddol ac eirioli iddynt ynghylch yr angen i weithredu newidiadau i bolisi a fydd yn sicrhau bod plant yng Nghymru yn cael y dechrau gorau posibl mewn bywyd.

Ym mis Chwefror 2022, trefnodd Synnwyr Bwyd Cymru i ddau o Lysgenhadon Hawl Plant i Fwyd Cymru wneud cyflwyniad i grŵp trawsbleidiol Senedd Cymru ar dlodi ac i rannu eu syniadau am fynediad plant i fwyd. Arweiniodd hyn at gyfle pellach i'r Llysgenhadon gwrdd yn uniongyrchol â'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol.

Astudiaeth achos

# Ymgyrch Hawl Plant i Fwyd

## Llysgenhadon Cymru ymgyrch Hawl Plant i Fwyd yn rhannu eu barn ynghlych mynediad plant i fwyd yng Nghymru

Yn ystod cyfarfod o grŵp trawsbleidiol Senedd Cymru ar dlodi, anerchwyd y grŵp gan Beth a Fayeth, dau o Lysgenhadon Cymru Hawl Plant i Fwyd, a rhannwyd eu barn a'u gwybodaeth am Dlodi Bwyd a'u profiad ohono, ac yn benodol, prydau ysgol am ddim.

Mewn blog a ysgrifennwyd gan Katie Palmer, Rheolwr Rhaglen Synnwyr Bwyd Cymru ar ôl y digwyddiad, mae'n amlinellu'r sefyllfa gyfredol yng Nghymru o ran mynediad pobl at fwyd, ac yn archwilio rhai o bryderon Beth a Fayeth - a'u dyheadau - sy'n gysylltiedig ag ymrwymiad Llywodraeth Cymru i gyflwyno prydau ysgol am ddim mewn ysgolion cynradd yng Nghymru.

Darllewnch fwy yma.



Beth



Fayeth

# Bwyd a Hwyl

## Yn cael ei darparu drwy Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a'i hariannu gan Lywodraeth Cymru

Mae Bwyd a Hwyl, yn rhaglen addysg aml-asiantaeth arobryn seiliedig ar ysgolion, sy'n darparu brecwast a chinio iach o safon, sesiynau addysg bwyd a maeth, gweithgaredd corfforol strwythuredig a gweithgareddau cyfoethogi i blant sy'n byw mewn ardaloedd o angen yng Nghymru. Wedi'i ddatblygu a'i dreialu yng Nghaerdydd yn 2015, mae Bwyd a Hwyl bellach yn cael ei gyflwyno mewn ysgolion ar draws Cymru dan oruchwyliaeth CLILC gyda Synnwyr Bwyd Cymru yn aelod o'r grŵp cynghori.

Dosbarthodd cyfanswm o 137 o ysgolion mewn 21 o ardaloedd cynghorau Bwyd a Hwyl i 193.5 o garfannau yn 2021, gan ddarparu 7,740 o leoedd i blant. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo cronfa grant gwerth £4.85 miliwn ar gyfer y cynllun yn 2022.

Ym mis Mai 2022, enillodd Bwyd a Hwyl y Wobr Cymdeithas Dda yn y Gwobrau Pys Plîs blynyddol, gan gydnabod yr ymdrechion i leihau anghydraddoldebau o ran cael mynediad at lysiau i blant a rhoi dechrau iach mewn bywyd i blant.



# Gwaith polisi ac eirioli

Mae Synnwyr Bwyd Cymru yn dilyn dull systemau o ymdrin â bwyd a ffermio, gan feithrin perthnasoedd gwaith cryf â sefydliadau cyhoeddus, preifat a chymdeithas sifil gan alw ac eirioli am newidiadau cadarnhaol yng Nghymru. Rydym yn eiriol dros newidiadau cadarnhaol a fydd yn helpu i wella'n hiechyd a'n canlyniadau cymdeithasol yn ogystal â bod o fudd i'r amgylchedd hefyd.

Dysgwch fwy am yr ymgyrchoedd a'r grwpiau rydyn ni'n ymwneud â nhw ar y tudalennau sy'n dilyn.



# Cynghrair Polisi Bwyd Cymru

Mae Cynghrair Polisi Bwyd Cymru yn gynghrair o sefydliadau a rhanddeiliaid sy'n adeiladu ac yn hyrwyddo gweledigaeth ar y cyd ar gyfer system fwyd Cymru.

**Trwy gydweithredu, ymgysylltu ac ymchwil nod y Gynghrair yw:**

- Cyd-gynhyrchu gweledigaeth ar gyfer system fwyd yng Nghymru sy'n cysylltu cynhyrchu, cyflenwi a defnyddio ac yn rhoi ystyriaeth gyfartal i iechyd a lles pobl a natur.
- Eirioli dros newid polisi i fynd i'r afael ag argyfyngau hinsawdd ac ecolegol, argyfwng iechyd y cyhoedd a'r cynnydd mewn ansicrwydd bwyd.
- Sicrhau bod Cymru wedi'i chysylltu â pholisi'r DU, cyfleoedd ymchwil a'r system fyd-eang ehangach.

Mae Cynghrair Polisi Bwyd Cymru wedi parhau i adeiladu momentwm a chefnogaeth o blaid gweledigaeth ar y cyd ar gyfer bwyd yng Nghymru. Bu cyfathrebu a chefnogaeth yr ysgrifenyddiaeth yn allweddol o ran datblygu gwaith y gynghrair. Mae'r gynghrair wedi parhau i ddylanwadu ar y rheini sy'n gwneud penderfyniadau drwy ymateb i ymgynghoriadau, cyfarfodydd, cyflwyniadau, gwaith ymchwil a chyhoeddiadau ac mae wedi cynyddu'r cyfleoedd i glywed lleisiau o bob rhan o'r System Fwyd.

Yn ystod y 12 mis diwethaf, cyhoeddwyd cyfres o ymrwymiadau a blaenoriaethau yng Nghymru a fydd yn cael effaith sylweddol ar ein system fwyd – yn benodol ymrwymiad Cytundeb Cydweithio Llafur Cymru a Phlaid Cymru i roi prydau bwyd am ddim i bob plentyn ysgol gynradd yng Nghymru o fewn tair blynedd a'r Bil Bwyd (Cymru) arfaethedig sy'n anelu at sefydlu system fwyd fwy cynaliadwy yng Nghymru i gryfhau diogelwch bwyd, gwella llesiant economaidd-gymdeithasol Cymru a gwella'r dewis i ddefnyddwyr. Bu Cynghrair Polisi Bwyd Cymru yn trafod y meysydd polisi hyn, yn ymateb iddynt ac yn eu hyrwyddo, gan weithio gyda chydweithwyr a chyfranwyr ledled Cymru i sicrhau bod y datblygiadau hyn yn creu system fwyd fwy cadarn, amrywiol a chysylltiedig i gymunedau ledled Cymru.

Roedd y cyfleoedd allweddol yn cynnwys digwyddiadau COP 26; ymateb i ymgynghoriadau ar ddyfodol Amaeth yng Nghymru; llunio glasbrint ar gyfer Comisiwn Systemau Bwyd yn ogystal â chyfweliadau teledu a radio.



Food. Climate. Change?
A podcast by Food Policy Alliance Cymru

### Astudiaeth achos

# Bwyd. Hinsawdd. Newid? Cyfres newydd o bodlediadau yn archwilio bwyd a newid hinswadd?


Yn ystod COP26, daeth Synnwyr Bwyd Cymru ar ran Cynghrair Polisi Bwyd Cymru  â nifer o unigolion o ystod o sefydliadau ynghyd i gymryd rhan mewn cyfres newydd o bodlediadau o'r enw Bwyd. Hinsawdd. Newid?

Wedi'i chyflwyno gan Aled Rhys Jones, fe wnaeth y gyfres hon o bodlediadau gynnwys cyfraniadau gan bobl sy'n gweithio ar draws system fwyd Cymru, gan roi'r cyfle iddynt drafod ac archwilio ystod o bynciau sy'n gysylltiedig â bwyd a newid hinsawdd.

Fel rhan o fenter fyd-eang ehangach o'r enw o'r enw Fforc i'r Fferm, daeth Bwyd. Hinsawdd. Newid? â phobl at ei gilydd – o ffermwyr a chynhyrchwyr, i bobl sy'n weithgar yn eu cymunedau, neu rai sy'n ymwneud â pholisi – er mwyn cael sgyrsiau agored a difyr yng nghyd-destun newid hinsawdd.

Amlygwyd rhai o ganlyniadau'r sgyrsiau O'r Pridd i'r Plât hyn yn ystod COP26 a gweithiodd Synnwyr Bwyd Cymru gyda'i bartner, Nourish Scotland, i hwyluso presenoldeb ar gyfer bwyd a ffermio yn COP, gan helpu i sicrhau bod lleisiau Cymreig amrywiol yn cael eu clywed yn y gynhadledd.

Gallwch barhau i ddarllen am y gyfres yma a gallwch wrando ar y podlediadau yma.



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Pwysau Iach: Cymru Iach

Pwysau Iach: Cymru Iach yw strategaeth hirdymor Llywodraeth Cymru i atal a lleihau gordewdra yng Nghymru.

**Fel rhan o'i huchelgeisiau, mae Llywodraeth Cymru am:**

- I bobl Cymru, a chenedlaethau'r dyfodol, gael y cychwyn gorau mewn bywyd a byw bywydau hirach, gwell a hapusach
- Cefnogi gwneud y dewis iachach yn ddewis hawdd ac i bobl deimlo eu bod yn cael eu galluogi i wneud dewisiadau cadarnhaol am eu ffordd o fyw er mwyn cynnal pwysau iach.

Mae Synnwyr Bwyd Cymru yn un o'r sefydliadau hynny sy'n gweithio mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru i weithredu a chyfleu ei strategaeth yn effeithiol gydag unigolion a chymunedau ledled Cymru.

Mae Synnwyr Bwyd Cymru wedi'i nodi fel prif arweinydd Cynllun Cyflawni 2022 – 2024 y strategaeth a nodwyd Pys Plîs yn Ardal Flaenoriaeth Genedlaethol 1 y cynllun.

NHS
Healthy Start

# Cychwyn Iach

Menter gan y Llywodraeth yw Cychwyn Iach sy'n darparu talebau gwerth £4.25 i deuluoedd cymwys bob wythnos i'w gwario ar laeth, ffrwythau a llysiau ffres, wedi'u rhewi ac mewn tun, corbys ffres, sych ac mewn tun, a llaeth fformiwla i fabanod.

Mae'r cynllun yn cefnogi teuluoedd sy'n cael mathau penodol o fudd-daliadau, gan helpu mamau beichiog a'r rhai sy'n bwydo ar y fron, a phlant o dan bedair oed yn benodol. Mae menywod a phlant sy'n cael talebau bwyd Cychwyn Iach hefyd yn cael cwponau fitaminau i'w cyfnewid am Fitaminau Cychwyn Iach am ddim, sydd wedi'u cynllunio'n benodol ar gyfer menywod beichiog a'r rhai sy'n bwydo ar y fron a babanod a phlant cyn-ysgol.

Ym mis Rhagfyr 2020, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y byddai'n cynyddu gwerth talebau Cychwyn Iach yng Nghymru, yn unol â Llywodraeth y DU, o £3.10 yr wythnos i £4.25 i ddarparu cymorth gyda maeth ymysg plant a theuluoedd ar incwm isel. Daeth y cynnydd hwn i rym ym mis Ebrill 2021. Mae'r cynllun hefyd yn y broses o droi'n ddigidol ledled y DU.

Cafodd y cynllun ei ddigideiddio yn 2022 ac mae Synnwyr Bwyd Cymru yn gweithio'n agos gyda chydweithwyr yn Llywodraeth Cymru i gefnogi ei gwaith ar Cychwyn Iach ac mae'n cefnogi ei hymdrechion cyfathrebu'n llawn. Mae Synnwyr Bwyd Cymru hefyd yn aelod o Weithgor Cychwyn Iach y DU sy'n cael ei gydgynnull gan Pys Plîs a Sustain ac sy'n eistedd ar Rwydwaith Cychwyn Iach Cymru Gyfan.

# Clymblaid Gwrth-dlodi Cymru

Mae Synnwyr Bwyd Cymru yn aelod o Glymblaid Gwrth-dlodi Cymru, cynghrair o sefydliadau cymdeithas sifil a chyrff proffesiynol blaenllaw ledled Cymru. Ers ei sefydlu yn 2019, mae'r Glymblaid wedi bod yn allweddol wrth amlinellu pryderon parhaus pobl sy'n byw mewn tlodi yng Nghymru ac mae wedi bod yn arbennig o weithgar yn ystod pandemig Covid-19.

Ym mis Mai 2021, comisiynodd Sefydliad Bevan a Chlymblaid Gwrthdlodi Cymru *Policy in Practice* i gynnal gwaith ymchwil ar estyn y ddarpariaeth o Fwyd Ysgol Am Ddim yng Nghymru. Mae'r adroddiad yn canolbwyntio ar asesu'r gost ariannol i Lywodraeth Cymru yn ogystal â'r effaith ar aelwydydd incwm isel.

Ym mis Chwefror 2022, trefnodd Synnwyr Bwyd Cymru i ddau o Lysgenhadol Hawl Plant i Fwyd Cymru, Beth a Fayeth, wneud cyflwyniad i Grŵp Trawsbleidiol y Senedd ar Dlodi lle y gwnaethant rannu eu barn, eu gwybodaeth a'u profiad o ran Tlodi Bwyd ac, yn benodol, prydau ysgol am ddim.



# Aelodaeth Byrddau a Grwpiau

Mae gan Synnwyr Bwyd Cymru gynrychiolaeth ar nifer o Fyrddau a Grwpiau sy'n gysylltiedig â systemau bwyd – ledled Cymru a'r DU.

**Dyma gipolwg:**

- Bwrdd Diwydiant Bwyd a Diod Cymru
- Y Grŵp Rhanddeiliaid Hawliau Dynol – sydd hefyd yn bwydo i Grŵp Trawsbleidiol y Senedd ar Hawliau Dynol
- Y Glymblaid Gwrthdlodi - sydd hefyd yn bwydo i Grŵp Trawsbleidiol y Senedd ar Hawliau Dynol
- Mynychu a chyfrannu at Grŵp Trawsbleidiol y Senedd ar Fwyd
- Bwrdd Nerth Llysiau
- Gweithgor Bwyd Ysgol y DU
- Cynghrair Systemau Bwyd Ymwybodol Asiantaeth Ddatblygu'r Cenhedloedd Unedig







# Y camau nesaf: camu i mewn i 2022 / 2023

Bydd datblygiadau cyffrous yn y flwyddyn i ddod yn sgil cyhoeddi'r Bil Amaethyddiaeth a bydd Bil Bwyd drafft yn cael ei gyflwyno i'r Senedd. Bydd Synnwyr Bwyd Cymru yn cynnal ei gynhadledd Bwyd mewn Cymunedau gyntaf ym mis Gorffennaf.

**Bydd Synnwyr Bwyd Cymru:**

- Yn cefnogi datblygiad y dull Partneriaeth Bwyd Cynaliadwy yng Nghymru gan sicrhau bod gan draean o'r ardaloedd awdurdodau lleol yng Nghymru bartneriaeth fwyd draws-sector erbyn mis Mawrth 2023. Byddwn yn parhau i lunio'r achos dros bartneriaethau Bwyd i ffurfio seiliau'r Strategaeth Bwyd Cymunedol fel bod gan bob rhan o Gymru weledigaeth ar gyfer ei system fwyd leol sy'n adlewyrchu anghenion lleol ac yn cynorthwyo i gyflawni blaenoriaethau Llywodraeth Cymru.

- Yn gweithio gyda phartneriaeth Pys Plîs y DU i ddatblygu strategaeth cam 2 a sicrhau cyllid i barhau i bwyso i gynyddu faint o lysiau sy'n cael eu bwyta yn wyneb rhwystrau cryf. Parhau i eirioli a chanfod atebion dyfeisgar i gynyddu cynnyrch garddwriaethol fel rhan o Gynghrair Arddwriaethol Cymru.

- Byddwn yn adeiladu ar raglen Fy Nghymuned Fwyd Dewch at eich Gilydd Bwyd am Oes gan anelu at gael 20 o raddedigion Arweinwyr Bwyd cymunedol ychwanegol yng Nghymru yn 2022/23. Byddwn yn parhau i integreiddio a meithrin cysylltiadau drwy'r Lleoedd Bwyd Cynaliadwy, Digwyddiadau Dewch at eich Gilydd Bwyd am Oes a Pys Plîs.

- Parhau i adeiladu momentwm a chefnogaeth i weledigaeth ar y cyd ar gyfer bwyd yng Nghymru drwy ein gwaith gyda Chynghrair Polisi Bwyd Cymru. Yn benodol, byddwn yn cymryd cyfleoedd i ymateb i unrhyw ymgynghoriadau sy'n gysylltiedig â Bil Bwyd (Cymru), y Strategaeth Bwyd Cymunedol ac ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar yr Amgylchedd Bwyd.

- Cefnogi Llywodraeth Cymru gyda chyflwyno Prydau Ysgol Am Ddim i Bawb, yn benodol drwy feithrin cysylltiadau rhwng safonau, caffael a chynhyrchu bwyd, y seilwaith fwyd leol ac addysg am fwyd.

- Gweithio gyda'n grŵp arbenigol a benodwyd yn ddiweddar i ddatblygu ein strategaeth yn y dyfodol y tu hwnt i 2023.



Synnwyr Bwyd Cymru Food Sense Wales

I gael rhagor o wybodaeth neu i siarad ag unrhyw aelod o'r tîm, cysylltwch â **foodsensewales@wales.nhs.uk**

Gallwch ganfod mwy am ein gwaith drwy ymweld â'n gwefan **www.synnwyrbwydcymru.org.uk**

A gallwch ddilyn Synnwyr Bwyd Cymru hefyd ar y cyfryngau cymdeithasol
Trydar @foodsensewales
Facebook.com/FoodSenseWales

Gyda diolch i:

CRONFA GYMUNEDOL COMMUNITY FUND

Cardiff & Vale HealthCharity Elusen Iechyd Caerdydd a'r Fro

GIG CYMRU NHS WALES Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro Cardiff and Vale University Health Board

GIG CYMRU NHS WALES Iechyd Cyhoeddus Cymru Public Health Wales

Esmée Fairbairn FOUNDATION